# Gwerthu i Gyngor Caerdydd

## Canllaw i gyflenwyr a chontractwyr

**Ionawr 2022**




Nod y canllaw hwn yw helpu cyflenwyr a chontractwyr posibl i ddeall sut mae Cyngor Caerdydd yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith ar hyn o bryd, ac i'w helpu nhw i wella eu cyfleoedd o ddod o hyd i gyfleoedd ac i fidio am waith.

Datblygwyd y canllaw hwn ar y cyd â Chynghorau Caerffili, Torfaen a Rhondda Cynon Taf a bydd canllawiau tebyg yn cael eu cyhoeddi gan y Cynghorau hyn.

*This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw

CARDIFF
CAERDYDD

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Sut caiff caffael ei drefnu? | 3 |
| Lle alla'i ddod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd contract? | 4 |
| Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael fydd y Cyngor yn eu dilyn? | 5 |
| Sut caiff cyflenwyr eu dewis a'u penodi?<br>- Rhoi gwybod i gyflenwyr<br>- Dewis cyflenwyr addas a chymwys<br>- Cyflwyno ymateb a gwerthusiad dyfynbris neu dendr<br>- Dyfarniad contract | 7 |
| Buddion cymunedol / Cyflog byw | 10 |
| Pam ein bod ni'n defnyddio cytundebau fframwaith? | 11 |
| Consortia a bidiau ar y cyd | 11 |
| All sefydliadau tendro dderbyn crynodeb? (Adborth) | 12 |
| Sut mae'r Cyngor yn talu ei gyflenwyr? | 12 |
| Monitro a rheoli contractau | 12 |
| Beth ddylech chi wneud a pheidio â'i wneud wrth dendro | 13 |
| Cymorth pellach | 14 |
| Hoffem glywed gennych chi | 14 |
| Gwefannau Defnyddiol | 15 |
| Manylion Cyswllt Defnyddiol | 16 |

## Sut caiff caffael ei drefnu?

Mae Cyngor Caerdydd yn gwario dros £482 miliwn y flwyddyn ar gaffael ystod eang o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan sefydliadau allanol yn y sector preifat a'r trydydd sector.

Rhaid i'r gwariant hwn gael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol, a chyfrifoldeb y Tîm Comisiynu a Chaffael yw rheoli holl weithgareddau caffael y Cyngor.

Yn 2012, gweithredodd y Cyngor ddull Rheoli Categori wrth gomisiynu a chaffael. Yn syml, mae hyn yn ffordd o reoli gweithgareddau prynu drwy gategoreiddio cynnyrch a gwasanaethau perthnasol ledled y Cyngor cyfan. Mae saith o gategorïau allweddol fel y'i nodir yn y siart isod.

*"Nod Cyngor Caerdydd yw cynyddu nifer y cyfleoedd gwerth is a hysbysebir ar Proactis"*




Cyfanswm gwariant ar waith, gwasanaethau a nwyddau a brynwyd i mewn

**£482m**

Ffig 1: Gwariant 2020/21 y Cyngor fesul Categori Allweddol

## Lle alla'i ddod o hyd i wybodaeth am gyfleoedd contract

Bydd Cyngor Caerdydd yn cyhoeddi cyfleoedd contract ar un o'r systemau isod:

- **GwerthwchiGymru** yw gwefan Gaffael Genedlaethol Cymru, mae hyn yn cynnwys yr holl gyfleoedd contract a hysbysebir yn eang â gwerth iddynt sydd uwchlaw ac islaw trothwyon y Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (RhCC/PCR). Mae gan GwerthwchiGymru gysylltiad uniongyrchol â'r Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr (GDHD/FTS) lle mae'n rhaid cyhoeddi contractau sy'n uwch na throthwyon RhCC.
- **Proactis** yw porth e-dendro newydd y Cyngor, a ddefnyddir hefyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Hysbysebir cyfleoedd contract drwy'r porth hwn i gyflenwyr/contractwyr cofrestredig.

Mae'r Cyngor yn annog cyflenwyr i gofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru. Mae'r ddau am ddim ac yn galluogi cyflenwyr i gael hysbysiadau tendro awtomataidd dros e-bost, yn ogystal â gweld cyfleoedd ar y dudalen Cyfleoedd, diweddaru a chynnal eu proffil, cael cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad at ddogfennau tendr a gweld manylion am gontractau sydd wedi'u dyfarnu.

*I gael mynediad at GwerthwchiGymru a Proactis, cliciwch ar yr eiconau isod*

Sell2Wales PROACTIS The Spend Control Company

**O.N.** Mae'n bwysig eich bod ond yn cofrestru ar gyfer y categorïau sy'n berthnasol i'r nwyddau/gwasanaethau/gwaith yr ydych chi'n eu cyflenwi. Bydd hyn yn sicrhau eich bod chi ond yn derbyn hysbysiadau am gyfleoedd contract sy'n berthnasol i'ch gwasanaeth chi.

*Mae'r ddolen i gael cyfarwyddiadau ar sut i gofrestru ar Proactis ar ddiwedd y canllaw hwn.*

Mae cymorth a chefnogaeth ar gael gan nifer o sefydliadau; i gael rhagor o wybodaeth ewch i'r is-adran **'Cymorth Pellach'**.

Yn ogystal â'r uchod, mae gan Gyngor Caerdydd Galendr Contractau a Fframweithiau, sy'n rhoi gwybodaeth ar ei gontractau a'i fframweithiau presennol. Mae hyn yn cynnwys manylion am gyflenwyr presennol, y rheolwr contract a'r dyddiadau dod i ben.

*"Rydym yn annog yn gryf bod cyflenwyr yn cofrestru ar Proactis a GwerthwchiGymru i gael mynediad am ddim at gyfleoedd"*

**Cliciwch ar y llun i weld y calendr.**

Commissioning & Procurement - Contract & Framework Calendar

BUYING RESPONSIBLY

| Contract Title | Reference | Contract Categories | WPC Lead | Expiration | Extension | Contract Manager | Vendors |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ncy Workers | WPC/CCC/5555/10 | Professional & Bought In Services > Employment Agencies | Cardiff | 01/02/2015 | Option to extend for 12 months | Natalie.Cooper@cardiff.gov.uk | Comensura |
| holic Beverages | WPC/JPU/0017 | Catering Supplies > Beers, wines & spirits and alcoholic drinks | Torfaen | 30/06/2014 | Option to extend for 12 months | joint.procurementunit@newport.gov.uk | Celtic Wines Ltd; Fine Wines Direct; Heineken |
| hitectural, Building Services, ineering & Surveying Consultancy vices 2010-2013 | 1169CCC | Consultancy Services > Architectural Consultants | | 30/11/2013 | Option to extend for 12 months | AlJones@cardiff.gov.uk | Aedas Architects Ltd; Atkins Ltd |
| estos Removal (HSE) | CCS/RGH/007/09 | Engineering & Environmental Services > Asbestos Removal/Disposal Contractors | | 31/08/2013 | Option to extend for 12 months | BevDavies@cardiff.gov.uk | Phoenix Asbestos Recovery Ltd |
| estos Removal (Licensed ervision) (HSE) | CCS/RGH/007/09 | Engineering & Environmental Services > Asbestos Removal/Disposal Contractors | | 31/08/2013 | Option to extend for 12 months | BevDavies@cardiff.gov.uk | MSS Consulting Ltd |
| estos Survey/Inspection | CCS/RGH/007/09 | Engineering & Environmental Services > Asbestos Removal/Disposal Contractors | | 31/08/2013 | Option to extend for 12 months | BevDavies@cardiff.gov.uk | Life Environmental Services Ltd |

# Pa reolau, rheoliadau a gweithdrefnau caffael fydd y Cyngor yn eu dilyn?

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith yn cael ei lywodraethu gan gyfraith y DU, gan gynnwys Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (2015) (RhCC/PCR) a chan Reolau Sefydlog Contract a Rheolau Caffael (RhSCRhC/CSOPR).

Mae gofyniad cyfreithiol ar Gyngor Caerdydd i gydymffurfio â RhCC, sy'n rheoli'r ffordd y mae caffael yn y sector cyhoeddus yn cael ei gynnal ar gyfer contractau dros y trothwyon a nodir isod.

| Nwyddau | Gwasanaethau | Gwaith |
|---|---|---|
| £213,477 | £213,477 | £5,336,937 |

Ffig 2: Trothwyon RhCC (gwerthoedd sy'n weithredol o 1 Ionawr 2022 i 31 Rhagfyr 2023)

Diben y RhCC yw annog cystadleuaeth agored a thryloyw sy'n cael ei chyflwyno drwy dendro cystadleuol ledled y DU. Rhaid i holl gaffael y sector cyhoeddus, gan gynnwys caffael islaw trothwyon y RhCC, barhau i gadw at Egwyddorion triniaeth gyfartal, dim gwahaniaethu, cydnabyddiaeth cydfuddiannol, cymesuredd a thryloywder.

Rheolau Sefydlog Contract y Cyngor a'r Rheolau Caffael sy'n darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario gyda gonestrwydd ac atebolrwydd amlwg waeth beth fo'r gwerth yn unol â'r RhCC.

Cyn dod o hyd i gyflenwyr allanol bydd y Cyngor yn nodi a ellir diwallu'r angen drwy gontract neu gytundeb fframwaith sy'n bodoli eisoes (gweler Pam Rydym Yn Defnyddio Cytundebau Fframwaith?). Os na ellir bodloni'r angen drwy gontract neu gytundeb fframwaith presennol, bydd proses Cais am Ddyfynbris (CADd/RFQ) neu broses Dendro yn cael ei chynnal yn dibynnu ar werth y contract, fel y nodir yn y tabl yn Ffigur 3 ar y dudalen nesaf:

| Dyfynbris neu Dendr | Gwerth | Y Broses | Hysbysebu |
|---|---|---|---|
| **Dyfynbrisiau**<br><br>Cynhelir gan brynwyr mewn gwasanaethau fydd fel arfer yn anfon cais am ddyfynbris dros e-bost i gyflenwr/cyflenwyr. | Llai na £10k | Derbyn o leiaf 1 dyfynbris | Bydd y prynwr yn penderfynu a oes angen hysbysebu'r cyfle. |
| | £10k - llai na £25k (Nwyddau a Gwasanaethau) a hyd at £75k (Gwaith) | Derbyn o leiaf 3 dyfynbris | |
| **Tendrau**<br>Mae'r rhan fwyaf o dendrau sy'n werth mwy na £25k (Nwyddau a Gwasanaethau) ac yn uwch na £75k (Gwaith) yn dilyn Gweithdrefn Gaeedig neu Agored.<br><br>**Caeedig = 2 gam**<br>Holiadur Cyn-cymhwyso (HCC) a Gwahoddiad i Dendro (GID).<br><br>**Agored = 1 cam**<br>Dogfennau tendr yn cynnwys cwestiynau dethol (tebyg i HCC) a chwestiynau dyfarnu (tebyg i GID). | £25k - £213k (Nwyddau a Gwasanaethau)<br>£75k - £5.336m (Gwaith) | Rhaid gwahodd lleiafswm o 4 tendr | Rhaid cael ei hysbysebu ar Proactis neu GwerthwchiGymru oni bai bod Rheolwyr Caffael y Cyngor yn cytuno fel arall. |
| | Dros drothwy'r UE | RhCC yn berthnasol a chyfle i gael ei hysbysebu | Rhaid i hysbysebion gael eu cyhoeddi drwy'r Gwasanaeth Dod o hyd i Dendr (GDHD/FTS) y mae gan GwerthwchiGymru gyswllt uniongyrchol â Chyngor Caerdydd ar ei gyfer. |


Ffig. 3: Prosesau Caffael

Rhaid i brosesau caffael ddilyn **amserlenni gofynnol** fel y nodir yng Nghyfarwyddebau Caffael yr UE; mae'r rhain yn amrywio yn ôl y broses gaffael a ddewiswyd ac a gyhoeddwyd Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (HGYLI/PIN). Bydd yr amserlenni gwirioneddol hefyd yn amrywio yn ôl graddfa a chymhlethdod y broses gaffael.

> ***"Mae angen i'r Cyngor brynu mewn ffordd sy'n gyfreithiol, sy'n rheoli risg ac sy'n cyflawni gwerth am arian"***

## Sut caiff cyflenwyr eu dewis a'u penodi?

Er y bydd yr union broses a ddefnyddir er mwyn dethol a phenodi cyflenwyr yn dibynnu ar werth y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n cael ei gaffael, yn ei hanfod bydd yn cynnwys y camau canlynol a nodir yn fanylach isod.




## Rhoi gwybod i gyflenwyr am Geisiadau am Ddyfynbris (CADd) neu Gyfleoedd Tendro

Gall y Cyngor roi gwybod i gyflenwyr am CADd neu gyfleoedd Tendro drwy un o'r tair ffordd isod.


Bydd prynwyr un ai:

- Yn mynd i'r Cyfeirlyfr Cyflenwyr ar Proactis ac yn dewis cyflenwyr priodol i'w gwahodd i gyflwyno dyfynbris neu dendr yn unol â'r lleiafswm sy'n ofynnol (fel y'i nodir yn y tabl ar dudalen 6), neu;

- Cyflwyno hysbysiad contract dros e-bost i bob cyflenwr sydd wedi cofrestru dan y categori perthnasol o nwyddau, gwasanaethau neu waith ar Proactis, neu;

- Rhoi hysbyseb ar Practis a/neu GwerthwchiGymru y gall unrhyw gyflenwr ei gweld. Bydd yr hysbyseb yn rhoi cyfarwyddiadau i gyflenwyr ar sut i gael y dogfennau tendr a chyflwyno ymateb.

Pan fydd contract yn cael ei hysbysebu, p'un ai a yw ar Proactis neu GwerthwchiGymru, bydd bidwyr arfaethedig yn cael eu cyfeirio at Proactis i fynegi diddordeb. Nid yw cofrestru ar Proactis yn unig yn cael ei ystyried yn fynegiant o ddiddordeb, ac os yw cyflenwr yn gweld cyfle sydd o ddiddordeb, bydd angen iddo ddewis y cyfle hwnnw a chlicio ar 'Cofrestru diddordeb' i fynegi diddordeb. Ni fydd dogfennau tendr ar gyfer contractau a hysbysebir yn cael eu hanfon at gyflenwyr dros e-bost; bydd angen i gyflenwyr gael y contractau o Proactis. Er hynny, gallwch gael y dogfennau heb gofrestru diddordeb yn y cyfle.



## Dewis cyflenwyr addas a chymwys

Pan gaiff cyfleoedd eu hysbysebu, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyflenwyr yn addas ac yn gymwys i gyflawni'r gofynion penodol yn erbyn contract cytunedig.

Er mwyn asesu addasrwydd y cyflenwr, bydd y Cyngor un ai'n:

- Cyflwyno Holiadur Cyn-cymhwyso (ar gyfer gweithdrefn gyfyngedig).
- Defnyddio cwestiynau dethol yn rhan o'r broses dendro (ar gyfer gweithdrefn agored).
- Cyflwyno Ffurflen Hunan Ardystio.
- Dibynnu ar ddata cyflenwyr sydd eisoes yn gweithio gyda'r Cyngor.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n gyson ac yn gymesur â gwerth, risg a chymhlethdod y contract, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r **Dogfen Gaffael Sengl (DGS/SPD)**. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r DGS ynghyd â chwestiynau gan y **Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (CDdGCC/SQuID)**. Mae hyn yn rhoi set safonol o gwestiynau a chanllawiau yn ymwneud â'u cais a'u defnydd ar gyfer y meysydd canlynol:

- **Derbynioldeb Cyflenwyr**: sail ar ddisgresiwn ar gyfer gwahardd bidiwr ar sail troseddau megis cynllwynio, llygredigaeth, twyllo, llwgrwobrwyaeth, methdaliad ac ansolfedd.

- **Sefyllfa Economaidd / Ariannol**: mewn rhai achosion, efallai y bydd angen i gyflenwyr posibl fod wedi cofrestru â Dun & Bradstreet (D&B) a/neu gynnig ffigyrau elw a colledion ar gyfer y 2 flynedd ddiweddaraf. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o wasanaethau sy'n cael eu tendro.

- **Yswiriant**: efallai y bydd gofyn i gyflenwyr posibl gyflwyno tystiolaeth o lefelau lleiafswm Atebolrwydd Cyflogwyr a Chyhoeddus ac Iawndal Proffesiynol.

- **Cymwyseddau a Galluoedd Technegol**: dangos tystiolaeth o gymwyseddau neu alluoedd sy'n benodol i gontract e.e. Diogelwch Nwy.

- **Capasiti a Gallu**: manylion am brofiad blaenorol a chontractau a gyflawnwyd.

- **Rheoli**: gwybodaeth am dechnegau sicrwydd ansawdd ac adolygiad perfformiad.

- **Cyfle Cyfartal**: cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gyfleoedd cyfartal.

- **Cynaliadwyedd**: cadarnhau ymrwymiad cyflenwyr i gynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

- **Iechyd a Diogelwch**: bydd graddfa'r asesiad yn briodol i natur y contract, yn dibynnu ar y cynnyrch, y gwasanaethau a'r gwaith sy'n cael ei ddarparu. Os yw'r Cyngor yn nodi bod angen asesu Iechyd a Diogelwch, rhaid i gontractwyr fod wedi'u hachredu gan aelod Cynllunio Diogelwch Caffael (CDC) (neu gyfwerth) cyn dyfarnu unrhyw gontract.

Os yw'r cyflenwr yn bodloni'r gofynion uchod, byddant yn symud ymlaen at gam tendro/dyfarnu'r broses gaffael.

**Mae'r Ddogfen Gaffael Sengl (DGS)** *yn ffurflen safonol sy'n disodli holiaduron cyn-gymhwyso h.y. Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (CDdGGC) Llywodraeth Cymru, a dylai wneud y broses o wneud cais am gontract cyhoeddus yn haws. Ei ddiben yw dileu rhai o'r rhwystrau rhag cymryd rhan mewn caffael cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh). Cafodd y defnydd o'r DGS ei gyflwyno'n raddol ledled Cymru yn 2018.*

*Mae'r DGS wedi'i chynllunio i'w defnyddio yn ystod cam dethol cyflenwyr y broses gaffael ac mae'n hunan-ddatganiad o statws ariannol, galluoedd ac addasrwydd ymgeiswyr ar gyfer gweithdrefnau caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, nodwch y bydd egwyddorion CDdGGC o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar risg a chymesur yn parhau. Datblygwyd nodyn cyngor caffael (NCC/PAN) newydd gan Lywodraeth Cymru i roi mwy o wybodaeth am ddethol cyflenwyr a DGS.*

## Cyflwyno ymateb a gwerthusiad dyfynbris neu dendr

Yn dibynnu ar werth y contract, bydd cyflenwyr penodol un ai'n cael Cais am Ddyfynbris (CADd) neu Gwahoddiad i Dendro (GID).

**Cais am Ddyfynbris** - dyma broses sy'n llawer rhwyddach o'i gymharu â thendr. Yn gyffredinol, bydd Proactis yn gofyn am ddyfynbrisiau a gall cyflenwyr dderbyn rhai neu bob un o'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau i gyflwyno'r dyfynbris.
- Manyleb o'r Gofynion (y mae'n rhaid i ddyfynbris cyflenwyr fod yn seiliedig ar hon).
- Datganiadau Dull (cwestiynau'n gofyn sut bydd y gofynion yn cael eu cyflawni).
- Meini prawf gwerthuso a'r fethodoleg sgorio (os oes elfen o ansawdd y mae'n rhaid ei hasesu hefyd).

Fel arfer, bydd gofyn i gyflenwyr ddychwelyd y dyfynbris yn electronig drwy'r Porth Proactis.

**Tendr** – mae hon yn broses llawer mwy cynhwysfawr. Bydd cyflenwyr sy'n mynegi diddordeb yn y cyfle'n derbyn pecyn tendr sy'n cynnwys ystod o ddogfennau tendr. Gallwch gael y dogfennau hyn ar Proactis. Mae'r pecyn tendr fel arfer yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Cyfarwyddiadau i Dendrwyr / Bidwyr.
- Manyleb o'r Gofynion
- Datganiadau Dull (cwestiynau'n gofyn sut bydd y gofynion yn cael eu cyflawni).
- Meini prawf gwerthuso a'r methodoleg sgorio.
- Amserlen brisio.
- Telerau ac Amodau Contract (TacA).
- Ffurflen Dendro.

Yn ystod y cam tendro/dyfarnu, bydd y Cyngor yn gwerthuso cynnig y cyflenwr am y ffordd y maent yn bwriadu bodloni'r gofynion penodol ac am ba pris. Mae hyn yn wahanol i'r ***cam dewis*** sy'n gwneud y cyflenwyr yn gymwys yn seiliedig ar allu a chapasiti yn deillio o ***brofiad blaenorol***.

Bydd ymatebion tendr un ai'n cael eu hasesu ar sail pasio/methu neu'n cael eu sgorio. Bydd popeth y mae angen i dendrwr wybod am sut y byddant yn cael eu gwerthuso wedi'i nodi'n glir yn y ddogfen dendr.

Yn unol â Safonau'r Gymraeg (Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Caerdydd – Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), gellir cyflwyno tendrau yn Saesneg neu'n Gymraeg. Ni chaiff tendr ar gyfer contract a gyflwynir yn Gymraeg ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg eraill, materion mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac mewn perthynas â'r amserlen ar gyfer hysbysu'r rhai sy'n cyflwyno tendr ynghylch yr hyn a gaiff ei benderfynu). Bydd y Cyngor yn cyfathrebu â'r rhai sy'n cyflwyno tendr yn eu dewis iaith, boed hynny'n Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Bydd canllaw'r Cyngor ar Safonau'r Gymraeg yn rhoi rhagor o gyngor.

Bydd gwerthusiad y tendr yn seiliedig ar un o'r canlynol:

1. **Pris ac Ansawdd**, yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y mwyafrif (os nad bob un) o'r gwasanaethau a'r gwaith. Gelwir yn hyn y Tendr sydd fwyaf Buddiol yn Economaidd (MEAT) gyda phwysiadau wedi'u pennu, er enghraifft, 40 % pris a 60 % ansawdd.
2. **Pris yn unig** (pris isaf) – fel arfer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer nwyddau'n unig.

Er mwyn asesu'r meini prawf ansawdd, bydd gofyn i gyflenwyr gyflwyno ymateb tendr electronig ar Proactis. Lle bo'n briodol, efallai y byddant yn cael eu gwahodd i gyfweliad a/neu gyflwyniad.

## Dyfarniad contract

**Cais am Ddyfynbris** – fel arfer y cyflenwr a gyflwynodd y pris isaf fydd yn ennill y contract. Fodd bynnag, os oes elfen ansawdd yn rhan o'r gwerthusiad, mae'n bosibl mai nid y cyflenwr sy'n cyflwyno'r dyfynbris isaf fydd yn cael y contract.

**Tendrau** – ar gyfer y rheiny sy'n cael eu gwerthuso ar MEAT, bydd y contract yn cael ei ddyfarnu i'r tendrwr sydd â'r sgôr gyffredinol uchaf. Ar gyfer y rheiny sy'n seiliedig ar bris yn unig, y cyflenwr a gyflwynodd y pris isaf fydd yn ennill y contract.

**O.N.** Yn ôl y Cyngor, bydd rhaid cofrestru ar Proactis cyn cael mynediad at unrhyw gyfleoedd, a chyn i unrhyw gontractau gael eu dyfarnu. Mae hon yn broses gyflym a syml.

***"Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu gwelliannau pellach o ran e-gaffael"***

## Buddion i'r Gymuned

Mae Polisi Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol y Cyngor yn dod ag ystod o ofynion deddfwriaethol gwahanol ynghyd, yn ogystal â mentrau polisi a dyheadau yn un fframwaith sengl sydd â chwe phrif flaenoriaeth:

- Hyfforddiant a chyflogaeth leol
- Rhoi Caerdydd yn gyntaf
- Partneriaid mewn cymunedau
- Gwyrdd a chynaliadwy
- Cyflogaeth foesol
- Hyrwyddo llesiant pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed

Prif nod y polisi hwn yw sicrhau bod y Cyngor yn gwella'r llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y mae'n ei gyflawni drwy ei waith caffael. Hoffai'r Cyngor weithio â sefydliadau sy'n rhannu'r un gwerthoedd o ran hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac arferion gwaith teg.

Bydd tendrwyr ar bob contract y Cyngor dros £1 miliwn yn gorfod ateb pa fuddion cymunedol y byddant yn eu cyflawni. Bydd 'cynnig' y tendrwr llwyddiannus yn rhan o'u Contract gyda'r Cyngor. Bydd cyflawni buddion cymunedol hefyd yn cael ei annog ar bob contract arall y Cyngor.

Ymhlith y buddion cymunedol yr hoffai'r Cyngor i'w gontractwyr ddarparu mae:

- Gweithio gydag ysgolion lleol, cyfrannu at gynlluniau adfywio cymunedol a mentrau cadwyni cyflenwi / amgylcheddol.
- Cyfleoedd i recriwtio a hyfforddi pobl economaidd anweithgar yn hirdymor yn rhan o'r gweithlu sy'n cyflawni contractau.
- Datblygu 12 ymrwymiad Cod Ymarfer: Code of Practice: Ethical Employment in Supply Chains gan gynnwys:
  - talu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' a'i hyrwyddo drwy gydol ei gadwyn cyflenwi
  - Manteisio ar gyfleoedd cadwyni cyflenwi ar gyfer busnesau bach a chanolig gan gynnwys mentrau cymdeithasol i fidio ar gyfer cyfleoedd cadwyn cyflenwi.




## Y Cyflog Byw

Mae cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' yn wirfoddol. Mae'n gyfradd yr awr a'i bennir yn annibynnol ac a'i ddiwedderir yn flynyddol. Caiff ei gyfrifo yn ôl cost byw sylfaenol yn y DU, ac ar hyn o bryd mae'n £9.50. Peidiwch â drysu rhwng y Cyflog Byw 'Gwirioneddol' a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol sy'n ddyletswydd gyfreithiol i gyflogwyr.

Mae Cyngor Caerdydd yn talu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' i'w holl gyflogeion ers mis Medi 2012 ac mae wedi ei achredu fel Cyflogwr Cyflog Byw ers Tachwedd 2015. Mae hyn yn golygu y telir yr holl staff uniongyrchol a thrwy asiant y Cyflog Byw 'Gwirioneddol' fel isafswm, ac eithrio prentisiaid a phobl dan 18 oed.

Mae'r Cyngor yn cysylltu â'i gyflenwyr/contractwyr er mwyn hybu defnyddio'r ymgyrch Cyflog Byw 'Gwirioneddol' ledled cymuned fusnes Caerdydd. Ein nod yw cynorthwyo ac annog cymaint o fusnesau lleol â phosibl i ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw 'Gwirioneddol' i'w cyflogeion.

Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw

Mae'r Cyngor yn awyddus i Gaerdydd gael ei gydnabod yn Ddinas Cyflog Byw. I gefnogi'r dyhead hwn, mae gan y Cyngor Gynllun Cefnogi Achrediad Cyflog Byw 'Gwirioneddol' i gynorthwyo busnesau bach a chanolig yng Nghaerdydd i gael eu hachredu.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cyflog Byw 'Gwirioneddol' cliciwch ar y llun 'Rydyn ni'n Gyflogwr Cyflog Byw'

> ***"Nod y Cyngor yw manteisio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl yng Nghymru yn deillio o gynnwys buddion cymunedol yn ei weithgareddau caffael"***

## Pam ein bod ni'n defnyddio cytundebau fframwaith?

Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn sefydlu cytundeb fframwaith ar gyfer categorïau gwariant cyffredin, lle bydd nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu prynu'n rheolaidd.

Mae cytundebau fframwaith yn nodi'r telerau ac amodau bras y bydd yn berthnasol i'r sefydliad prynu wrth brynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan gyflenwyr yn y dyfodol. Gall cytundebau fframwaith fod ag un cyflenwr neu sawl cyflenwr a phara hyd at 4 mlynedd.

Cyn mynd allan am dyfynbrisiau neu dendr, bydd y Cyngor yn pennu a oes fframwaith presennol ar waith all fodloni'r gofynion. Bydd hyn hefyd yn cynnwys ystyried fframweithiau a osodir gan sefydliadau prynu ar y cyd megis y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCC) a grwpiau cydweithredol cenedlaethol eraill megis Gwasanaethau Masnachol y Goron (GMG). Mae'r mathau canlynol o fframweithiau ar gael:

- **Fframweithiau Lleol Cyngor Caerdydd**, e.e. Gwasanaethau Gofal Cartref.
- **Fframweithiau Rhanbarthol**, e.e. Cyfalaf Ysgolion De Ddwyrain Cymru (CYDDdC).
- **Fframweithiau Cenedlaethol (Cymru):** Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol, e.e. deunydd ysgrifennu.
- **Fframweithiau Cenedlaethol Eraill**, e.e. Gwasanaeth Masnachol y Goron (GMG), Consortiwm Prynu Eastern Shires (ESPO), Sefydliad Prynu'r Gogledd Ddwyrain (NEPO).

Er mwyn paratoi ymlaen llaw at gyfleoedd i'r dyfodol, rydym yn cynghori cyflenwyr i ddarganfod pryd fydd fframweithiau'n dod i ben. Ar gyfer fframweithiau Cyngor Caerdydd, gall cyflenwyr weld y Calendr Fframwaith Contractau, ac ar gyfer pob fframwaith cenedlaethol arall, gall cyflenwyr gael mynediad at eu gwefannau drwy ddilyn y dolenni ar ddiwedd y canllaw hwn.



## Gwasanaeth Prynu Deinamig (GPD)

Mae GPD yn debyg i Fframwaith, ond mae'n galluogi cyflenwyr i ymuno ar unrhyw adeg yn ystod y GPD, os ydynt yn bodloni meini prawf y GPD. Mae ymrwymiadau gwahanol i brynwyr a chyflenwyr wrth sefydlu a chaffael drwy'r GPD. Bydd y sefydliad prynu yn asesu anghenion pob caffael cyn penderfynu a ddylid defnyddio GPD.

## Consortia a bidiau ar y cyd

Mae Cyngor Caerdydd yn annof cyflenwyr a chontractwyr i gyflwyno consortia neu fidiau ar y cyd ar gyfer gwaith y Cyngor, yn enwedig ar gyfer contractau gwerth uchel neu gymhleth. Mae'n bosibl y bydd consortia'n helpu i gynyddu'r siawns o ennill gwaith ac yn enwedig yn fuddiol i fusnesau bach a chanolig a'r Trydydd Sector na fyddai o bosib yn meddu ar y sgiliau na'r gallu i gyflwyno bidiau am gontractau mwy ar eu pennau eu hunain.  Mae'r Cyngor yn cydnabod yr her y mae consortia neu fidio cydweithredol yn creu ar ddechrau'r broses dendro. Felly, er mwyn caniatáu digon o amser i baratoi consortia neu gyflwyniadau cydweithredol, bydd y Cyngor yn ceisio rhoi gwybodaeth ddigonol i gyflenwyr cyn i'r broses dendro ddigwydd.

Ynghyd â gweithio ar y cyd neu drwy gonsortia, rydym yn annog busnesau bach a chanolig a'r Trydydd Sector i geisio cyfleoedd is-gontractio ac adeiladu perthnasau gyda phrif gontractwyr. Gall prif gontractwyr helpu i wneud cyfleoedd cadwyni cyflenwi'n fwy amlwg drwy hysbysebu ar GwerthwchiGymru neu drwy ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr.

Mae cymorth a chefnogaeth ar gael gan nifer o sefydliadau. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r is-adran **'Cymorth Pellach'**.

## All sefydliadau tendro dderbyn crynodeb (adborth)?

Nod Cyngor Caerdydd yw rhoi adborth i dendrwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus i'w helpu nhw i wella ar gyfer cyfleoedd i'r dyfodol. Lle bo'n briodol, mae'n debygol y bydd yr adborth yn ysgrifenedig yn rhan o'r llythyr sy'n rhoi gwybod i'r tendrwr ei fod wedi bod yn aflwyddiannus (gelwir yn llythyr ymddiheuro). Gallwch gael rhagor o wybodaeth dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, cyn belled bod y cais am adborth yn cael ei gyflwyno'n **ysgrifenedig** (drwy Proactis).

## Sut mae'r Cyngor yn talu ei gyflenwyr?

Dylai'r telerau cyflog gael eu nodi yn y dogfennau contract. Fel arfer, byddwn yn talu o fewn 30 diwrnod gwaith o'r Tîm Cyfrifon Taladwy yn derbyn anfoneb gywir.

I sicrhau bod anfonebau'n cael eu talu, mae'r Cyngor bellach yn gweithredu polisi 'Dim Archeb Prynu, Dim Tâl' **(No PO, No Pay)**. Bydd cyflenwyr nad ydynt yn cyflwyno anfoneb gyda rhif Archeb Brynu ddilys yn debygol o brofi oedi wrth dderbyn taliad. Felly, rydym yn annof cyflenwyr sy'n mynnu derbyn archeb brynu ddilys gan y person yn y Cyngor a gododd yr archeb.

## Monitro a rheoli contractau

Bydd disgwyl i gyflenwyr a chontractwyr fodloni eu hymrwymiadau i gynnig y nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith yn unol â'r gofynion a nodir yn y dogfennaeth gontract ac arddangos gwerth am arian. Bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod perthynas weithio agored, da ac adeiladol gyda'i gyflenwyr a chontractwyr, fydd hefyd yn helpu i adnabod a datrys unrhyw broblemau cyn gynted â phosibl.



## Beth ddylech chi wneud a pheidio â'i wneud wrth dendro

| ARFERION DA | ARFERION GWAEL |
|---|---|
| Gwiriwch amser a dyddiad cau er mwyn dychwelyd tendrau. Sicrhewch eich bod chi'n trefnu digon o amser i gwblhau'r ddogfennaeth.<br><br>Sicrhewch eich bod chi'n ateb y cwestiynau fel y'i nodir, gan roi manylion am y gofynion penodol a rhowch dystiolaeth yn unol â'r canllawiau.<br><br>Gofynnwch am eglurhad os nad ydych yn siŵr am unrhyw ran o'r fanyleb neu os oes gennych unrhyw ymholiadau cyffredinol am ddogfennau tendr, gan gynnwys telerau ac amodau'r contract. Rhaid cyflwyno ymholiadau am eglurhad ar Proactis. | Peidiwch â dychwelyd eich tendr ar ôl y dyddiad na'r amser, **oherwydd ni fydd tendrau hwyr yn cael eu hystyried oni bai mewn amgylchiadau eithriadol**.<br><br>Peidiwch â 'gwneud i fyny'r' cwestiynau fel y gallwch ychwanegu unrhyw beth yn eich ymateb, gallwn ond werthuso'r wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani.<br><br>Peidiwch â phoeni am y dogfennau, ceisiwch gymorth gan gynghorwyr tendrau er enghraifft, neu ewch i ddigwyddiadau cwrdd â'r prynwr.<br><br>Peidiwch â chyflwyno prisiau sydd mor isel, os byddwch yn ennill y contract ni fyddwch yn gallu cyflenwi'r nwyddau/gwasanaethau am y pris hwnnw i'r safon ofynnol.<br><br>**Mae gan y Cyngor hawl i beidio â derbyn unrhyw dendr yr ydym o'r farn y bydd yn annilys.** |

## Cymorth pellach

Mae **Gwasanaeth Tendro Busnes Cymru** yn cefnogi busnesau yn eu hymdrechion i dendro am gontractau sector preifat, neu i'w helpu nhw i fynd drwy'r broses dendro am gontractau sector cyhoeddus. Gall Ymgynghorwyr Arbenigol Busnes Cymru:

- ganolbwyntio ar fod yn fwy ymarferol gyda phartneriaid a chleientiaid cyn i dendrau fynd yn fwy, er mwyn canolbwyntio ar helpu busnesau bach a chanolig sy'n tyfu i ddod yn 'barod i dendro'
- gweithio'n agos â Phrynwyr, yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, ac asesu pecyn cymorth priodol
- cynnal digwyddiadau briffio contractwyr lle bo'n berthnasol ar sail un i un i dendrwyr penodol.
- cynnig mynediad at Ddosbarthiadau Meistr i fusnesau bach a chanolig mwy sy'n tyfu. Bydd hyn yn weithdy manylach, fydd yn helpu'r cleientiaid hyn i gynllunio strategaethau ar gyfer tendro, gwella ansawdd eu hymatebion, mireinio'r ffordd y maen nhw'n ymateb i dendrau i wella'r cyfleoedd o lwyddo. Bydd yr Ymgynghorwyr yn ceisio cymorth ymgynghorwyr arbenigol eraill Busnes Cymru (Adnoddau ac Effeithlonrwydd a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth) i gynnig rhan o becyn cymorth i sicrhau bod y busnes bach a chanolig yn 'barod i dendro'.
- cynnig mynediad at grynodebau o'r polisïau perthnasol angenrheidiol a'r achrediadau
- hefyd yn cyfrannu at ddatblygu'r gadwyn gyflenwi leol ar gyfer cwmnïau Haen 1 mwy.

Bydd ymgynghorwyr arbenigol Busnes Cymru'n cynnal diagnostig yn ystod cyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r busnes bach a chanolig sy'n tyfu, gan arwain at argymhellion i'w gweithredu i wella prosesau tendro a'r tebygolrwydd o lwyddo, gan yrru twf drwy ennill tendrau.

Mae digwyddiadau **Cwrdd â'r Prynwr** yn cael eu cynnal gan y Cyngor i roi gwybodaeth i gyflenwyr ar gyfleoedd contract a'r broses dendro.
Gallant hefyd roi cyfle i gyflenwyr i gwrdd â phrif gontractwyr i gael gwybodaeth am gadwyni cyflenwi posibl/cyfleoedd is-gontractio.

Gall **Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Caerdydd** roi cymorth busnes a chyngor i helpu busnesau bach a chanolig i gael cymorth ariannol.

Mae gan **Ganolfan Gydweithredol Cymru** dîm arbenigol all helpu sefydliadau i ddatblygu consortia.
Gall y tîm roi cymorth ar sut i strwythuro eich consortiwm, a rhoi cyngor ar lywodraethu a materion cyfreithiol all effeithio arnoch chi.

Mae Cyngor Trydydd Sector Caerdydd (C3SC) yn bodoli i gefnogi a datblygu trydydd sector Caerdydd. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a WCVA, maent wedi ymrwymo i gynyddu gwybodaeth a sgiliau'r sector i sicrhau bod grwpiau a sefydliadau yng Nghaerdydd yn eu gwneud eu hunain yn gynaliadwy ac yn bodloni anghenion eu cymunedau. Gall swyddogion trydydd sector roi cymorth i chi i chwilio am gyllid ar gyfer eich sefydliad.


***Gellid dod o hyd i fanylion cyswllt y sefydliadau uchod ar ddiwedd y canllaw hwn.***

## Hoffem glywed gennych chi

Mae'r canllaw hwn yn ceisio rhoi dealltwriaeth well i sefydliadau sydd am weithio gyda Chyngor Caerdydd am sut i fidio am waith a beth all fod yn ofyniad arnyn nhw fel cyflenwr neu gontractwr. Hoffwn dderbyn adborth gennych chi ar sut allwn wella'r canllaw hwn, pa wybodaeth sydd ar goll yn eich tyb chi ac unrhyw beth yr hoffech weld yn y canllaw.

Hoffwn hefyd gael eich adborth mewn perthynas â'ch profiad chi o wneud busnes gyda'r Cyngor, y gwasanaeth a ddarperir gan y tîm Comisiynu a Chaffael ac unrhyw faterion neu broblemau yr ydych wedi canfod.

Anfonwch eich sylwadau at **caffael@caerdydd.gov.uk**



## Gwefannau Defnyddiol

| SEFYDLIAD | |
|---|---|
| Cyngor Dinas Caerdydd - Caffael | www.caerdydd.gov.uk/caffael |
| Cyngor Caerdydd - Caethwasiaeth Modern | www.caerdydd.gov.uk/Caethwasiaeth-Modern |
| Archebion Sefydlog Contract a Rheolau Caffael (dan 'Eitemau Perthnasol' ar wefan caffael) | http://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s22894/Contract%20Standing%20Orders%20and%20Procurement%20Rules.pdf |
| Calendr Contractau a Fframweithiau | https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Tenders-commissioning-and-procurement/Current-opportunities/Documents/Contracts%20Register%20October%202020.pdf |
| Proactis | www.proactisplaza.com/supplierportal |
| Proactis: Cyfarwyddiadau cofrestru ar-lein | https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Tenders-commissioning-and-procurement/Policies-procedures-and-guidance/Pages/Policies-procedures-and-guidance.aspx |
| GwerthwchiGymru | www.sell2wales.gov.wales |
| Constructionline | www.constructionline.co.uk |
| SSIP (Iechyd a Diogelwch) | www.ssip.org.uk |
| Tenders Electronic Daily (TED) | www.findatenderservice.co.uk |
| Gwefan Gwybodaeth Sector Cyhoeddus y Deyrnas Unedig | www.gov.uk |
| Working Links | www.workinglinks.co.uk |
| Rheoliadau Contractau Cyhoeddus PDF | http://www.legislation.gov.uk/uksi/2015/102/pdfs/uksi_20150102_en.pdf |
| Gwasanaeth Masnachol y Goron (GMG) | https://www.gov.uk/government/organisations/crown-commercial-service |
| Sefydliad Prynu Eastern Shires (ESPO) | www.espo.org |
| Sefydliad Caffael y Gogledd Ddwyrain (NEPO) | www.qtegov.com |
| Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (GCG) | http://nps.gov.wales |

## Manylion Cyswllt Defnyddiol

| SEFYDLIAD | CYSWLLT | FFÔN | E-BOST | GWEFAN |
|---|---|---|---|---|
| Comisiynu a Chaffael Cyngor Caerdydd | Siop Un Stop Caffael | 029 2087 3732 | caffael@caerdydd.gov.uk | caffael@caerdydd.gov.uk |
| Tîm Datblygu Economaidd Cyngor Dinas Caerdydd | | 029 2078 8498 | cyngorbusnes@caerdydd.gov.uk | |
| Busnes Cymru | | 030 0060 3000 | | https://businesswales.gov.wales |
| Mabis | | 02920 467417 | tendro@mabis.cymru | |
| Tendient | | 01633 927123 | hello@tendient.co.uk | |
| Cyngor Trydydd Sector Caerdydd | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 029 2048 5722 | enquiries@c3sc.org.uk | www.c3sc.org.uk |
| Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 0800 2888 329 | help@wcva.org.uk | www.wcva.org.uk |
| Canolfan Gydweithredol Cymru | | 0300 111 5050 | info@walescooperative.org | www.walescooperative.org |
| Business In Focus | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 0870 950 90 90 | enquiries@businessinfocus.co.uk | www.businessinfocus.co.uk/en/home.aspx |
| Ffederasiwn Busnesau Bach | Gwasanaethau Cwsmeriaid | 0292 0747 406 | wales.policy@fsb.org.uk | www.fsb.org.uk |
| Ffederasiwn Adeiladwyr Meistr | Swyddfa Cymru<br>Prif Swyddfa<br>Ymunwch â'r FfAM | 01656 750955<br>020 7242 7583<br>08000 965 765 | richardjenkins@fmb.org.uk | www.fmb.org.uk/about-fmb/fmb-regions/devolved-countries/welsh/ |
| Siambr Fasnach De Cymru | Caerdydd<br>Abertawe<br>Casnewydd | 0292 0481 532<br>01792 793686<br>01633 222664 | info@southwaleschamber.co.uk | www.southwaleschamber.co.uk |

CARDIFF CAERDYDD